

2020 Rhif (Cy.)

2020 No. (W.)

**TRAFFIG FFYRDD, CYMRU**

**ROAD TRAFFIC, WALES**

Gorchymyn Cefnffordd yr A483  
(Stryd Lydan a Stryd Fawr,  
Llanfair-ym-Muallt, Powys)  
(Gwahardd Cerbydau Dros Dro)  
2020

The A483 Trunk Road (Broad  
Street & High Street, Builth Wells,  
Powys) (Temporary Prohibition of  
Vehicles) Order 2020

*Gwnaed* 22 Medi 2020

*Made* 22 September 2020

*Yn dod i rym* 28 Medi 2020

*Coming into force* 28 September 2020

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o gefnffordd yr A483, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the A483 trunk road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1), (4) and (7) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

**Enwi, Cychwyn a Dehongli**

**Title, Commencement and Interpretation**

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Stryd Lydan a Stryd Fawr, Llanfair-ym-Muallt, Powys) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2020 a daw i rym ar 28 Medi 2020.

1. The title of this Order is the A483 Trunk Road (Broad Street & High Street, Builth Wells, Powys) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2020 and it comes into force on 28 September 2020.

2. Yn y Gorchymyn hwn—

2. In this Order—

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

“exempted vehicle” (“*cerbyd esempt*”) means any vehicle being used by the emergency services or in connection with the works giving rise to this Order;

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw’r cyfnod sy’n dechrau am 19:00 o’r gloch ar 28 Medi 2020 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw’r darn o gefnffordd yr A483 Abertawe i Fanceinion o’r enw Stryd Lydan a Stryd Fawr, Llanfair-ym-Muallt, Powys, sy’n ymestyn o bwynt 10 metr i’r gorllewin o’i chyffordd â’r A470 Stryd y Castell hyd at bwynt 3 metr i’r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â Stryd y Strand.

### Gwaharddiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darn o’r gefnffordd a bennir yn erthygl 2 o’r Gorchymyn hwn.

### Cymhwys

4. Nid yw’r gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

### Atal Dros Dro

5. Mae darpariaethau erthygl 4 o Orchymyn Cefnffordd (yr A483) (Llanfair-ym-Muallt, Powys) (Traffig Unffordd) 1983(2) wedi eu hatal dros dro mewn cysylltiad â’r darn o’r gefnffordd o’r enw Y Strand yn ystod y cyfnodau hynny pan fydd y gwaharddiad a bennir yn erthygl 3 o’r Gorchymyn hwn yn weithredol.

### Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn

6. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

22 Medi 2020

Nicci Hunter  
Arweinydd y Tîm Busnes  
Llywodraeth Cymru

(2) O.S. 1983/1460

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the length of the A483 Swansea to Manchester trunk road known as Broad Street and High Street, Builth Wells, Powys that extends from a point 10 metres west of its junction with the A470 Castle Street to a point 3 metres east of the centre-point of its junction with Strand Street;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means the period commencing at 19:00 hours on 28 September 2020 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

### Prohibition

3. No person may, during the works period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on the length of the trunk road specified in article 2 of this Order.

### Application

4. The prohibition in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

### Suspension

5. The provisions of article 4 of the Trunk Road (A483) (Builth Wells, Powys) (One Way Traffic) Order 1983(2) are suspended in respect of the length of the trunk road known as The Strand during such times as the prohibition specified in article 3 of this Order is in operation.

### Duration of this Order

6. The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed under authority of the Minister for Economy, Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated

22 September 2020

Nicci Hunter  
Business Team Leader  
Welsh Government

(2) S.I. 1983/1460

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A483  
(STRYD LYDAN A STRYD FAWR, LLANFAIR-  
YM-MUALLT, POWYS) (GWAHARDD  
CERBYDAU DROS DRO) 2020**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A483, neu gerllaw iddi, yn Llanfair-ym-Muallt, Powys.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd, ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys neu ar gyfer y gwaith, rhag mynd ar y darn o'r gefnffordd o'r enw Stryd Lydan a Stryd Fawr, Llanfair-ym-Muallt sy'n ymestyn o bwynt 10 metr i'r gorllewin o'i chyffordd â'r A470 Stryd y Castell hyd at bwynt 3 metr i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â Stryd y Strand.

Y llwybr arall ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r gorllewin o Bont Afon Gwy (nid yw'n effeithio ar draffig sy'n teithio tua'r dwyrain) fydd mynd ar yr A483, Y Strand, tua'r gorllewin, a Stryd y Strand tua'r de i ailymuno â'r gefnffordd ar ben gorllewinol Stryd Fawr. Tra bydd y gwaith hwn yn digwydd, bydd y system unffordd ar Y Strand wedi ei hatal dros dro.

Disgwylir y bydd y gwaharddiad dros dro yn dod i rym ar 28 Medi 2020 ac yn weithredol dros nos (19:00 hyd 05:00 o'r gloch) tan 2 Hydref 2020 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf, rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan [Llywodraeth Cymru](https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd) ar <https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd>.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**  
Trafnidiaeth  
Llywodraeth Cymru

**THE A483 TRUNK ROAD (BROAD STREET &  
HIGH STREET, BUILTH WELLS, POWYS)  
(TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES)  
ORDER 2020**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A483 trunk road at Builth Wells, Powys.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles, other than those being used by the emergency services or for the works, from proceeding on the length of the trunk road known as Broad Street and High Street, Builth Wells that extends from a point 10 metres west of its junction with the A470 Castle Street to a point 3 metres east of the centre-point of its junction with Strand Street.

The alternative route for westbound vehicles from the Wye Bridge (eastbound unaffected) will be via the westbound A483 The Strand and southbound Strand Street to re-join the trunk road at the western end of High Street. During the works the one-way system on The Strand will be suspended.

The temporary prohibition is expected to come into force on 28 September 2020 and to operate overnight (19:00 – 05:00 hours) until 2 October 2020 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the dates specified above, it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/road-orders>.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**  
Transport  
Welsh Government